# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD GWENER, 19 MAWRTH 2021

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:**

Glyn Daniels, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Anwen Hughes, Peredur Jenkins, Eric M Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Peter Read, Dewi W Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a Gethin Glyn Williams

**Swyddogion:**

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Edgar Owen (Cadeirydd y Cyngor)
Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd y Cyngor)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11-02-21 fel rhai cywir

**5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol

sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

## 6. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PRIF WEITHREDWR

Adroddodd y Cadeirydd bod 6 cais wedi ei derbyn am y swydd.

Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

**PENDERFYNWYD RHOI DAU YMGEISYDD AR Y RHESTR FER**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygodd y Prif Weithredwr y byddai cwmni Goodman Thomas yn cynnal canolfan asesu gan ganolbwyntio ar y profion seicometreg a chymwyseddau'r ymgeiswyr. Bydd y Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol, 3 Aelod Cabinet a Chadeirydd y Pwyllgorau Craffu yn cynnal cyfweliad proffesiynol. Bydd adroddiad ffurfiol o ymatebion yr ymgeiswyr yn cael ei ddarparu gan y ganolfan asesu a'r Prif Weithredwr i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

Trafodwyd chwe cwestiwn a thestun cyflwyniad priodol ar gyfer y cyfweliad.

Cyfweliadau gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i'w cynnal 16 Ebrill 2021

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.00 y.h.

**CADEIRYDD**